# Tasg 3

**(Heriol, sbardun 1)**

**Gweithgareddau pâr**

Edrychwch eto ar y llun "Noson Serennog".

1. Siaradwch am y llun gyda phartner, e.e.:
   - Beth rydych chi'n ei weld yn y llun?
   - Beth yw'r prif liwiau?
   - Ydy'r lliwiau'n llachar neu'n dawel?
   - Beth yw'ch barn chi am y lliwiau?
   - Pa siapiau sydd i'w gweld?
   - Pam beintiodd van Gogh y llun yma, tybed?
   - Sut mae'r llun yn gwneud i chi deimlo?
   - Beth yw'ch barn chi am y llun? Rhowch resymau dros eich ateb.

2. Edrychwch ar luniau eraill gan van Gogh.
   Ydy'r llun yn debyg neu'n wahanol i'w luniau eraill?

**Gweithgareddau ar gyfer unigolion**

3. Ysgrifennwch adolygiad o'r llun yma.
   Gallwch chi ddefnyddio'r pwyntiau trafod uchod yn eich adolygiad.

4. Beth am geisio ail-greu'r llun yma – ond mewn lliwiau gwahanol, efallai?
   neu,
   Beth am greu llun sy'n debyg i un o luniau eraill van Gogh?